CYMDEITHAS TAI CLWYD

CYMDEITHAS TAI CLWYD

Cymdeithas Dai Elusennol – Charitable Housing Association

Prif Swyddfa:
54 STRYD Y DYFFRYN
DINBYCH
SIR DDINBYCH
LL16 3BW

☎ 0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
taiclwyd@taiclwyd.com
www.taiclwyd.com

STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID LLEOL

Os hoffech dderbyn y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft print bras, cysylltwch â'r swyddfa

CYMERADWYWYD RHAGFYR 2008

CYNNWYS

	TUDALEN
CYFLWYNIAD	3
SUT MAE'R STRATEGAETH WEDI CAEL EI DATBLYGU?	3
BETH YW EIN PRIF NODAU AC AMCANION?	4
CWMPAS CYFRANOGIAD	5
OPSIYNAU CYFRANOGIAD	6
PA ADNODDAU A DDARPERIR	8
HYFFORDDIANT	9
DATBLYGU CYMUNEDOL A GWEITHGAREDDAU ADFYWIO	9
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH	9
MONITRO A GWERTHUSO	10

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyfranogiad Tenantiaid a Datblygu Cymunedol wedi bod yn ganolog i waith Cymdeithas Tai Clwyd erioed, ac rydym yn falch iawn o gyflwyno ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid cyntaf sydd wedi cael ei ddatblygu gan y Grŵp Cyfranogiad Tenantiaid a Datblygu Cymunedol (GCT) sy'n cynnwys tenantiaid, staff ac aelodau o Fwrdd Rheoli y Gymdeithas.

Ar bob lefel, mae CTC yn cydnabod fod cyfranogiad tenantiaid yn dod â budd i'r gymdeithas gyfan ac i'r tenantiaid a'r cymunedau a wasanaethir. Trwy gynnwys tenantiaid ym mhob agwedd o waith y gymdeithas, gallwn gyflawni gwelliant gwasanaeth sy'n ganolbwynt i'r tenant, datblygu potensial unigolion a chymunedau a dod yn fwy atebol i'n tenantiaid.

Bydd datblygu'r strategaeth hon yn ein cynorthwyo i adeiladu ar lwyddiant gweithgareddau CT y gorffennol ac mae'n rhoi gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Yn ychwanegol, bydd y strategaeth hon yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi ein gweithgareddau datblygu cymunedol ehangach. Rydym yn cydnabod mai dogfen waith yw hon a fydd yn cael ei hadolygu yn gyson er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'n tenantiaid er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl.

2. SUT MAE'R STRATEGAETH WEDI CAEL EI DATBLYGU ?

Sefydlwyd y GCT ym mis Chwefror 2007 ac mae aelodau'r grŵp yn cynnwys tenantiaid, aelodau o'r Bwrdd a staff o bob adran o fewn y Gymdeithas. Y dasg gyntaf i'r grŵp oedd datblygu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol (SCTL) gyda chefnogaeth a hyfforddiant gan TPAS Cymru. Yn ystod yr hyfforddiant, mae'r grŵp wedi bod yn edrych ar weithgareddau a strwythurau Cyfranogiad Tenantiaid presennol, sut mae'r Gymdeithas yn monitro ac adolygu ei gweithgareddau, pa adnoddau sydd ar gael, ac i ba raddau y mae Cyfranogiad Tenantiaid wedi cael ei brif ffrydio ar draws y Gymdeithas. Er bod y grŵp wedi defnyddio Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad fel canllaw, canolbwyntiwyd yn bennaf ar anghenion ein tenantiaid a'r cymunedau a wasanaethir. Bellach, mae'r GCT wedi cwblhau SCTL drafft a Chynllun Gweithredu. Ymgynghorwyd â staff a thenantiaid rhwng Mai ac Awst 2008, ac mae'r canlyniadau wedi eu hymgorffori i'r Cynllun Gweithredu.

Datganiad gan Mr Leslie McDavid, aelod denant o'r GCT:

"Trwy weithio gyda staff i ddatblygu'r SCTL rhoddodd gyfle gwych i ni gael y gwir ymdeimlad o weithio mewn partneriaeth, ac i fynd gam ymhellach tuag at chwalu'r rhwystrau 'ni a nhw' ac i weithio gyda'n gilydd fel rhan o dîm"

3. BETH YW EIN PRIF NODAU AC AMCANION?

Datganiad Corfforaethol Cymdeithas Tai Clwyd yw:

'Cynorthwyo, mewn partneriaeth â chyrff statudol a gwirfoddol a busnesau lleol, i gynnal ac ychwanegu at gymunedau lleol gogledd Cymru trwy ddarparu tai a gwasanaethau o safon uchel. Rhoi cefnogaeth a chymorth i'r preswylwyr gan eu hannog i gyfranogi yn ein gwaith'.

Mae SCTL yn cefnogi'r datganiad corfforaethol hwn, a'n gweledigaeth ni yw:

'gwella ansawdd a darpariaeth y gwasanaethau a ddarperir a'r cymunedau a wasanaethir trwy weithio mewn partneriaeth gyda'n tenantiaid a phreswylwyr trwy amrediad o gyfleoedd i gyfranogi'

Er mwyn ein cynorthwyo i wireddu ein gweledigaeth, rydym wedi penderfynu ar y nodau isod:

- Gwella'r holl wasanaethau o fewn y Gymdeithas trwy sicrhau mwy o gyfraniad gan denantiaid.
- Cynyddu cyfranogiad ein holl denantiaid gan gynnwys grwpiau tan gynrychioliadol, trwy sicrhau cyfleoedd a chefnogaeth briodol i gyfranogi.
- Datblygu diwylliant o gyfranogiad ar draws y sefydliad cyfan, fel bod cynllunio, gwneud penderfyniadau ac adolygu prosesau yn agored i wir fewnbwn gan denantiaid.
- Cefnogi ac annog prosiectau a fydd yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer y gymuned ehangach trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r tenantiaid, preswylwyr ac asiantaethau eraill.
- Galluogi tenantiaid ymhellach i gael y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan trwy ddarparu hyfforddiant priodol, adeiladu cynhwysedd, adnoddau ariannol ac adnoddau eraill.
- Cynyddu monitro effeithiol, a gwerthuso gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid gan ddarparu adborth ar ganlyniadau'r rhain i'n tenantiaid.
- Hybu cyfranogiad tenantiaid ymysg tenantiaid sy'n derbyn cymorth i fyw yn eu cartrefi eu hunain er mwyn gwella'r gwasanaeth yr ydym ni'n ei ddarparu i'r tenant ac i'r darparwr gwasanaeth.

4. CWMPAS CYFRANOGIAD

Mae Cymdeithas Tai Clwyd wedi ymrwymo i sicrhau fod cyfleoedd parhaus i'r holl denantiaid gyfranogi yn nyluniad a darpariaeth eu gwasanaethau tai. Er mwyn uchafu ymgynghoriad a chyfranogiad, bydd amrediad o ddulliau yn cael eu defnyddio a'u datblygu. Bydd yr hyblygrwydd yma yn cynnig dewis i'r tenantiaid ac yn eu galluogi i gyfranogi ar lefel ac amser sydd yn gweddu iddynt orau. Mae cwmpas ein gwasanaethau cyfranogiad tenantiaid yn cynnwys:-

Anghenion a Dymuniadau Tenantiaid

Bydd CTC yn cynnal arolwg yn rheolaidd er mwyn adnabod pa ddull o gyfranogi gyda'r gymdeithas sydd orau gan y tenantiaid ac er mwyn datblygu strwythurau a fydd yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r dulliau o'u dewis. Bydd y GCT hefyd yn adolygu effeithiolrwydd y dulliau hyn er mwyn canfod ymarferion positif a sicrhau eu bod yn parhau i gwrdd ag anghenion a dymuniadau ein tenantiaid.

Prif Ffrydio Cyfranogiad

Mae'r gweithgareddau cyfranogiad yr ydym yn ymgymryd â hwy yn integredig i'n holl swyddogaethau landlord ac yn cynorthwyo i adnabod a gwireddu gwelliannau gwasanaeth. Mae gan y GCT aelodau'r Bwrdd a staff o bob adran o fewn y sefydliad sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr Cyfranogiad Tenantiaid o fewn eu hadrannau eu hunain.

Ymatebol

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gyfranogi, sydd wedi eu datblygu i siwtio eich anghenion a'ch dyheadau, gan ddefnyddio mecanweithiau ffurfiol a llai ffurfiol.

Cyfranogiad gan bob grŵp o denantiaid

Mae'r dulliau cyfranogiad presennol yn ei gwneud hi'n bosibl i bob tenant gyfranogi, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadnabod fel rhai anodd eu cyrraedd. Darperir cefnogaeth ychwanegol i denantiaid sydd â'u hamgylchiadau unigol yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gyfranogi.

Cymuned

Bydd ein gweithgareddau cyfranogiad yn ymestyn y tu hwnt i'n swyddogaeth landlord, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau i gefnogi tenantiaid a thrigolion i fynd i'r afael â phroblemau ehangach o fewn eu cymunedau a'u hamgylchedd.

Cynaladwyedd yn y dyfodol

Bydd y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y GCT er mwyn sicrhau fod y nodau ac amcanion yn parhau yn berthnasol ac er mwyn sicrhau fod yr adnoddau a glustnodwyd i gyfranogiad tenantiaid yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol ac effeithlon.

5. OPSIYNAU CYFRANOGIAD - SUT GALL TENANTIAID GYFRANOGI?

5A) GWAHANOL LEFELAU O GYFRANOGI

Er mwyn uchafu cyfranogiad ac ymgynghoriad, defnyddir amrediad o ddulliau. Bydd hyn yn cynnig dewis i'r tenantiaid er mwyn eu galluogi i gyfranogi ar adeg, lefel a dull sy'n eu siwtio orau.

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:

⇒ Hysbysu Tenantiaid

Bydd CTC yn darparu gwybodaeth am yr holl faterion a datblygiadau perthnasol yn y gwasanaeth, mewn fformat clir ac o ansawdd uchel.

Rydym yn hysbysu tenantiaid mewn nifer o ffyrdd. Dyma rai esiamplau:

- Cylchlythyr tenantiaid 'Cadwyn'
- Cytundeb Tenantiaeth CTC – mae pob tenant yn derbyn copi o'r cytundeb tenantiaeth sy'n gosod hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a CTC.
- Llawlyfr Tenantiaid
- Adroddiad Blynyddol CTC
- Gall tenantiaid wneud cais am gopi o Bolisïau a Gweithdrefniadau (gweithdrefniadau cwynion, polisi dyrannu a.y.b.)
- Taflenni gwybodaeth – mae ystod o daflenni ar nifer o bynciau yn ymwneud â thai yn cael eu harddangos yn ein swyddfeydd.
- Gwefan CTC
- Cyfarfodydd rhwng swyddogion a grwpiau tenantiaid a phreswylwyr
- Ymweliadau â thenantiaid

Mae ein holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gallwch wneud cais amdanynt mewn ieithoedd cymunedol, Braille, print bras neu ar dâp.

⇒ Ymgynghoriad

Bydd CTC yn darparu cyfleoedd i denantiaid fynegi eu barn ac fe ymgynghorir â hwy ar benderfyniadau a datblygiadau sy'n effeithio arnynt fel tenantiaid. Byddwn yn ymgynghori â thenantiaid mor fuan ag sy'n bosibl fel y gallant gael cyfle i gyfranogi yn ystod y cam o greu Polisi yn hytrach na'r cam o weithredu Polisi. Bydd unrhyw adborth yn deillio o ymgynghoriad yn cael ei gofnodi fel y gellir ei fwydo yn ôl i'r tenantiaid i amlygu'r effaith mae'r broses ymgynghori wedi ei gael ar y penderfyniad terfynol. Dyma rai esiamplau o ymgynghori:

- Clwb Tai Clwyd 50
- Ymgynghori gyda grwpiau tenantiaid a phreswylwyr
- Ymgynghori gyda thenantiaid unigol
- Ymgynghori lle bo'n briodol gyda Grwpiau Cymunedol
- Cynnal cyfarfodydd ar faterion penodol gyda thenantiaid unigol, preswylwyr a'r gymuned ehangach
- Ymweliadau cartref lle gwnaed cais
- Arolygon a Holiaduron Post
- Gwibdaith, Diwrnodau Hwyl a Diwrnodau Tenantiaid
- Fforymau ardal os yn briodol
- Ymgynghoriad tros y ffôn

⇒ Cyfranogiad

Byddwn yn darparu cyfleoedd i denantiaid ddylanwadu ar ddatblygiadau a chyfrannu tuag at wneud penderfyniadau. Credwn y gall Cyfranogiad Tenantiaid fod o fudd i'r gwasanaeth y mae tenantiaid yn ei dderbyn yn ogystal â'r gymuned ehangach. Rydym hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi grwpiau tenantiaid a phreswylwyr lleol sy'n gweithio tuag at wella ansawdd eu bywydau o fewn eu cymunedau eu hunain.

⇒ Rheolaeth

Byddwn yn darparu cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan o fewn strwythur Llywodraethol y Gymdeithas gan gefnogi'r broses a buddsoddi ynddi. Darparu cyfleoedd i denantiaid gymryd rheolaeth tros swyddogaethau CTC os ydynt yn dymuno, e.e. rheolaeth ddirprwyedig tros gyllidebau penodol.

5B) YSTOD O DDULLIAU GWAHANOL

Bydd Cymdeithas Tai Clwyd yn defnyddio ystod o ddulliau i gyfranogi a hysbysu tenantiaid am faterion sy'n effeithio arnynt ac i ddarparu adborth. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddarparu cyfleoedd ar draws lefelau gwahanol o gyfranogiad fel bod lefel uwch o gyfleoedd ar gael, nid yn unig lefelau gwybodaeth ac ymgynghoriad, os mai dyma ddymuniad rhai tenantiaid.

Gall dulliau effeithiol o ddarparu gwybodaeth, ymgynghori a chyfranogi gynnwys:

- Cyhoeddi gwybodaeth trwy'r cylchlythyr tenantiaid
- Gwefan CTC yn darparu gwybodaeth am weithgareddau'r gymdeithas
- Llawlyfr Tenantiaid
- Cynhadledd flynyddol ar gyfer tenantiaid a phartneriaid/rhanddeiliaid
- Gwibdeithiau
- Cefnogaeth ar gyfer grwpiau tenantiaid
- Darparu hyfforddiant i denantiaid
- Ymgynghori ar bolisïau trwy Tai Clwyd 50
- Grwpiau adolygiad gwerth gorau
- Aelod o GCT
- Dod yn denant aelod o'r Bwrdd
- Holiaduron ac Arolygon
- Dod yn Siopwr Dirgel

5C) YSTOD O FFURFIAU AC IEITHOEDD

Bydd CTC yn darparu gwybodaeth mewn ystod o ffurfiau ac ieithoedd yn unol ag anghenion y tenantiaid, ac yn sicrhau'r gallu i gyfranogi mewn gweithgareddau trwy ddarparu cefnogaeth i gwrdd ag anabledd neu anghenion ieithyddol.

6. PA ADNODDAU A DDARPERIR

Ar hyn o bryd mae gan y Gymdeithas dri aelod o staff sy'n gweithio o fewn y Tîm Datblygu Cymunedol, 2 llawn amser ac 1 rhan-amser, sy'n ymroddedig i brosiectau Cyfranogiad Tenantiaid a Datblygu Cymunedol. Yn ychwanegol i staff, mae gennym gyllideb Datblygu Cymunedol a Chyfranogiad Tenantiaid, (2008/2009: £33,000) a adolygir yn flynyddol. Gallwn hefyd ddarparu cefnogaeth arall, ar wahân i gefnogaeth ariannol, i denantiaid a phreswylwyr a grwpiau cymunedol, megis cyfleusterau ffotocopïo a chyfieithu. Bydd y gyllideb yn cael ei adolygu yn chwarterol gan y GCT er mwyn sicrhau gwerth am arian.

7. HYFFORDDIANT

Er mwyn i denantiaid gael gwir ddylanwad, rydym yn cydnabod y dylid bod hyfforddiant priodol ac anghenion cefnogaeth ar gael. Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant, gan gynnwys y canlynol:

- ⇒ Academaidd
- ⇒ Mewnol
- ⇒ Mynychu seminarau mewn cynadleddau
- ⇒ Cysgodi gwaith
- ⇒ Ymweliadau cyfnewid

Bydd hyfforddiant ar Gyfranogiad Tenantiaid hefyd yn cael ei ddarparu i'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod wedi ei brif ffrydio ar draws gwaith y gymdeithas.

Gwneir dadansoddiad o anghenion hyfforddiant yn flynyddol a bydd y GCT yn ei adolygu yn flynyddol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

8. DATBLYGU CYMUNEDOL A GWEITHGAREDDAU ADFYWIO

Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol yn ymroddedig i gefnogi tenantiaid a phreswylwyr i gael gwell dylanwad o fewn eu cymunedau ac i annog mentrau sydd wedi eu hanelu at wneud cymunedau yn fwy diogel, yn fwy cytûn ac yn gyffredinol yn llefydd gwell i fyw ynddynt. Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned gyfan, gan gynnwys pobl ifanc, i annog prosiectau a fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. Byddwn yn ymdrechu i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau eraill mewn perthynas â gweithgareddau adfywio er mwyn cefnogi ac adeiladu cynhwysedd y gymuned a chynyddu'r gwasanaethau a ddarperir.

9. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Byddwn yn sicrhau fod pob rhan o'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cydymffurfio'n llwyr â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gymdeithas. Bydd ein holl weithgareddau cyfranogiad yn cael eu cynllunio ar sail gynhwysol er mwyn galluogi ein holl denantiaid i gyfranogi ynddynt.

10. MONITRO A GWERTHUSO

Bydd y strategaeth hon yn ddogfen waith yn amodol ar adolygiad parhaus gan y GCT i sicrhau ei bod yn cwrdd ag amcanion ac yn cyrraedd targedau. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr adolygiadau yn ystyried ystod o opsiynau gwybodaeth ac adborth gan ymchwilio i'r canlynol:

- ⇒ Sut y cyfranogwyd?
- ⇒ Pa drefniadau a wnaed i annog cyfranogiad ac uchafu hygyrchedd?
- ⇒ Sut y cynrychiolwyd barn tenantiaid yng nghanlyniad y cyfranogiad?
- ⇒ Sut y cafodd canlyniadau'r cyfranogiad eu bwydo yn ôl i'r rhai a gymerodd ran?
- ⇒ Beth oedd y raddfa amser a ganiatawyd i alluogi cyfranogiad effeithiol i gymryd lle?
- ⇒ Y gost o ddatblygu cyfranogiad tenantiaid effeithiol
- ⇒ A dderbyniodd tenantiaid wybodaeth ddigonol, cefnogaeth ac adnoddau i'w galluogi hwy i gyfranogi'n effeithiol?
- ⇒ Pa mor hapus yw'r tenantiaid gyda'r ystod o opsiynau cyfranogiad sydd ar gael iddynt? Sut y gellir gwella hyn?
- ⇒ A gafodd tenantiaid gyfle i gyfranogi beth bynnag fo eu hoedran, cefndir ethnig, iaith, tueddfryd rhywiol, anghenion penodol neu leoliad?

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddefnyddio fel sail i fesur gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid. Trwy fonitro'r camau allweddol hyn, byddwn yn sicrhau fod y strategaeth yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Bydd y strategaeth yn cael ei werthuso'n allanol gan ymgynghorwyr annibynnol bob 3 blynedd.